Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bancffosfelen
# Ysgol Bancffosfelen
# Bancffosfelen
# Pontyberem
# Llanelli
# SA15 5DR

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.



**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Bancffosfelen sydd yn cwrdd yn neuadd yr Ysgol ym Mancffosfelen, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn 16 o blant rhwng 2 a 3 oed ac mae ymarferwyr yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar i 6 plentyn sydd yn cael ei hariannu. Mae'r lleoliad ar agor am bump bore'r wythnos.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig a daw 4 o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, does dim plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff sy'n cynnwys yr arweinydd. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd yn 2008.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Hydref, 2017 a gan Estyn ym mis Gorffennaf 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafaredd
- bron pob un o'r plant yn hapus yn dod i'r lleoliad ac yn ymgartrefu'n dda
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a chwrteisi at eraill
- ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau addas i sicrhau cyfleoedd i blant wrando ar storïau yn rheolaidd
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda gyda'r plant ac ymysg ei gilydd
- gan y lleoliad amryw o adnoddau addas ar gyfer cyflwyno cwricwlwm y cyfnod sylfaen
- bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn llwyddiannus

Fodd bynnag:

- nid yw medrau meddwl a datrys problemau'r plant wedi datblygu'n ddigon cadarn
- nid yw'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws yr holl feysydd dysgu
- nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau nac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant
- nid yw'r cynllunio na'r drefn ddyddiol yn gadael i'r plant gael mynediad di-dor i weithgareddau tu fewn a thu allan

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth addas ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddarparu awyrgylch gofalgar a chartrefol i'r plant
- y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i waith y lleoliad ac mae ganddynt strwythur a chyfeiriad strategol cadarn
- dealltwriaeth yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd ar gyfer gwella yn datblygu'n briodol
- partneriaeth agos yn bodoli rhwng y lleoliad, athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin sy'n arwain at nifer o weithdrefnau newydd buddiol sy'n cychwyn symud y lleoliad ymlaen
- y lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o gymorth allanol
- gan y lleoliad bartneriaeth gadarn gyda rhieni a gofalwyr sy'n gwerthfawrogi ansawdd y gofal a ddangosir gan ymarferwyr tuag at eu plant

Fodd bynnag:

- mae'r arweinydd yn ysgwyddo nifer fawr o'r cyfrifoldebau ac nid yw'r holl ymarferwyr yn cyfrannu'n ddigon effeithiol tuag at weithdrefnau dyddiol y lleoliad
- nid yw pob aelod o staff yn chwarae rhan digon effeithiol yn y gweithdrefnau hunanarfarnu ac, o ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o flaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella
- nid yw dealltwriaeth lleiafrif o'r ymarferwyr o sut i wireddu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn ddigon cadarn

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n fwriadus i alluogi plant i gymhwyso eu medrau'n gynyddol ar draws y cwricwlwm yn yr ardal dysgu tu allan a thu fewn

A2 Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cynnig her briodol a chyson i blant o bob gallu

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddatrys problemau a datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus

A4 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn cynnwys yr holl ymarferwyr er mwyn adnabod y meysydd pwysig sydd angen eu gwella

A5 Gwella rôl arweinwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r plant wrth gynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae medrau mwyafrif y plant sy'n dechrau yn y lleoliad yn debyg i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu hamser yn y lleoliad, mae llawer yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu agweddau positif at ddysgu. Fodd bynnag, lleiafrif o blant sy'n gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn. Maent yn gynyddol hyderus wrth siarad Cymraeg gyda'u cyfoedion ac oedolion, er enghraifft wrth ddefnyddio geirfa a phatrymau syml fel enwi anifeiliaid yr Arctig wrth chwarae rôl. Mae medrau gwrando mwyafrif o'r plant yn datblygu'n briodol ac mae tua hanner yn awyddus i wrando ar stori ac yn ymateb yn briodol iddi yn ystod sesiynau torfol. Mae lleiafrif o blant yn dangos diddordeb mewn defnyddio deunyddiau darllen yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau'r ffordd gywir ac yn dechrau troi tudalennau yn annibynnol. Mae rhan fwyaf y plant yn dechrau adnabod eu henwau wrth hunangofrestru yn y bore. Mae llawer o blant yn arbrofi ag ystod o ddefnyddiau tu allan a thu allan i wneud marciau ar y bwrdd du ac ar wrthrychau priodol. Fodd bynnag, nid yw llawer o blant yn dewis ysgrifennu yn annibynnol i greu marciau.

Mae ychydig o blant yn dechrau magu hyder wrth adrodd rhifau a chyfrif gwrthrychau i bump, er enghraifft wrth gyfrif anifeiliaid yn yr ardal byd bach. Mae tua hanner yn deall termau mathemategol syml fel mawr a bach, llawn a gwag, mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft wrth lenwi cynhwysyddion yn y twb tywod. Mae'r mwyafrif y yn adnabod siapau dau ddimensiwn yn briodol, ac yn dechrau deall pwrpas arian wrth brynu eu ffrwyth bob dydd.

Mae tua hanner o'r plant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn wrth chwarae o ddydd i ddydd. Maent yn defnyddio llechen electronig a gliniadur yn hyderus i chwarae gemau rhifo a gêm gerddoriaeth. Maent yn defnyddio datguddiwr metal yn gadarn wrth chwilio am bysgod rhif yn ystod gweithgaredd rhifedd.

Mae gan bron pob plentyn fedrau corfforol cryf. Maent yn hyderus wrth chwarae ar feiciau gan wneud ymdrech dda i bedlera. Maent yn rhedeg yn yr awyr agored ac yn dringo tu allan yn hyderus. Mae eu medrau mudol mân yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth iddynt gwblhau jig-so gyda phegiau, defnyddio toes ac wrth drin cymeriadau yn y byd bach.

Yn gyffredinol, mae gallu rhan fwyaf y plant i ddatrys problemau yn gyfyng. Ychydig o blant yn unig sydd yn datblygu eu medrau meddwl ar draws y meysydd dysgu yn briodol.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob plentyn yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu bob dydd. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau oedolion. Maent yn hyderus wrth weithio yn yr amgylchedd ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau.

Yn gyffredinol, mae llawer o blant yn dangos cymhelliant yn eu dysgu. Maent yn ymddwyn yn dda wrth gyd-chwarae. Fodd bynnag, mae ychydig o blant yn amharod i ganolbwyntio yn ystod gweithgareddau ffocws ar y carped.

Mae llawer o blant yn gwneud dewisiadau addas ynglŷn â'u dysgu, er enghraifft wrth ddewis ardaloedd i chwarae. Mae'r mwyafrif yn dechrau trafod yr hyn maent wedi ei wneud yn ystod y sesiynau gyda brwdfrydedd cynyddol. Mae bron pob plentyn yn hyderus wrth ddilyn y drefn foreol ac yn ymuno â'r gweithgaredd amser cylch yn ddiffwdan. Mae bron pob plentyn yn rhannu teganau yn dda, yn aros eu tro ac yn dweud diolch. Fodd bynnag, ychydig o blant sydd yn awyddus i helpu trwy dacluso ar ddiwedd y sesiwn.

Yn gyffredinol, mae medrau annibynnol llawer o blant yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn dechrau rhoi menyn ar fara yn ystod amser byrbryd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o blant yn or-ddibynnol ar gymorth oedolion, er enghraifft wrth wisgo a dadwisgo eu cotiau. Maent yn deall pwysigrwydd golchi dwylo yn drylwyr ac yn annibynnol ar ôl chwarae tu allan a chyn bwyta bwyd ac yfed diod. Mae ychydig o blant yn dechrau deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sylfaenol diddorol sydd yn briodol i oed a gallu'r plant. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau'r plant yn addas wrth iddynt weithio yn yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i blant chwarae rôl yn yr iglw er mwyn defnyddio geirfa newydd yn y Gymraeg. Mae hyn yn datblygu eu medrau llafar yn briodol. Mae dealltwriaeth y mwyafrif o'r ymarferwyr o ofynion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i alluogi plant i gymhwyso eu medrau yn gynyddol ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod briodol o brofiadau er mwyn annog y plant yn llwyddiannus i ffurfio perthynas gadarnhaol ag eraill a datblygu parch a goddefgarwch tuag at eraill. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd dilys i blant ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol plant yn gadarn trwy weithgareddau awyr agored yn ogystal â dan do yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae defnydd yr ardal tu allan wedi cynyddu ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant wrth ddefnyddio beiciau, peli a hŵps. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio na'r drefn ddyddiol yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad di-dor i weithgareddau tu fewn a thu allan.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n addas er mwyn bodloni anghenion rhan fwyaf y plant o wahanol alluoedd.  Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob tro'n cynnig digon o her i'r plant ac nid yw'r cynllunio'n adeiladu'n ddigon cadarn ar eu dysgu blaenorol.

Mae'r lleoliad yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd iddynt fwynhau dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r ardal leol yn achlysurol ar gyfer mynd am dro a chwarae yn y parc.  Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o'u hardal leol yn addas.  Fodd bynnag, nid oes digon o ddefnydd rheolaidd o'r ardal leol nac ymwelwyr i'r lleoliad er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol.

**Addysgu:  Digonol**

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r berthynas hyfryd sy'n bodoli rhwng y staff a'r plant.  Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn sensitif ac yn deall anghenion y plant yn dda.  O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu ffrindiau drwy rannu adnoddau a chyd chwarae yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau cyffrous a diddorol ar gyfer y plant.  Maent yn gwneud defnydd priodol o'r ardaloedd dysgu gwahanol er mwyn datblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.  Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn cydweithio yn dda â'i gilydd ac maent yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn ystod y sesiynau.  Maent yn cychwyn sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sydd o dan arweiniad a rhai i alluogi plant i weithio'n annibynnol.  Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n sicrhau cyfleoedd effeithiol i blant gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm.  Nid yw disgwyliadau ymarferwyr bob tro yn ddigon uchel er mwyn cynnig gweithgareddau sydd yn herio'r plant yn ddigon effeithiol, yn enwedig wrth weithio yn yr ardaloedd dysgu.

Yn ystod sesiynau torfol ac mewn gweithgareddau ffocws, mae ymarferwyr yn dechrau holi plant yn addas gan eu hannog i feddwl, er enghraifft wrth roi cyfle i iddynt ddewis gwrthrych i gyd-fynd â rhif mewn gweithgaredd pysgota.  Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda ac yn annog y plant i ymestyn eu geirfa yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llafar.  Er enghraifft, wrth chwarae rôl yn yr iglw ac yn yr ardal byd bach, mae plant yn dechrau defnyddio geirfa newydd fel 'morlo' a 'walrws' fel rhan o'u chwarae.

Mae ymarferwyr yn dechrau gwneud defnydd addas o asesiadau anffurfiol i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu.  Mae'r defnydd diweddar o broffil y cyfnod sylfaen yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynnydd plant yn addas.  Fodd bynnag, nid yw pob ymarferydd yn chwarae rhan annatod yn y broses hon ac nid yw'r asesu'n digwydd fel rhan naturiol o arfer y lleoliad bob dydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae iechyd a lles y plant yn flaenoriaeth uchel i'r holl ymarferwyr.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer gofal a chymorth yn effeithio'n briodol ar ddatblygiad personol y plant.  Mae'r lleoliad yn

darparu cyfleoedd dyddiol ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu am fwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw'n heini yn rhan bwysig o gadw'n iach.

Mae'r ymarferwyr yn bositif ac yn gyfeillgar gyda'r plant ac yn eu canmol yn aml. Maent yn rhoi ymdeimlad o hunan-barch iddynt wrth ymateb yn gadarnhaol i'w hymdrechion a'u llwyddiannau.

Mae arferion dyddiol y lleoliad yn datblygu gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus trwy ddefnydd doeth o gyfarwyddiadau byr, syml a chyson.

Mae'r ymarferwyr yn creu cyfnodau gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd ac amser myfyrio ar ddiwedd y sesiwn, i feithrin y gwerthoedd hyn yn fedrus. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r plant yn ystyried teimladau cyfoedion yn ddeallus, yn cydweithio'n deg ac yn parchu eraill.

Mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch gartrefol yn ystod amser byrbryd. Maent yn annog y plant i fod yn annibynnol ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais ac mae helpwr y diwrnod yn dosbarthu platiau a chwpanau ar y bwrdd yn rheolaidd. Fodd bynnag, cychwyn mae'r arfer ac nid yw wedi gwreiddio'n llawn eto. Er bod ymarferwyr yn gwneud ymdrech briodol i ddysgu'r plant am gynaliadwyedd, nid yw'r lleoliad yn cynnig digon o gyfleoedd i blant i ailgylchu fel rhan annatod o'r trefniadau dyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau priodol ar gyfer adnabod a chynllunio ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinydd yn trafod anghenion plant unigol gydag asiantaethau priodol. O ganlyniad, mae'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan y lleoliad ethos croesawgar a theuluol. Mae'r ymarferwyr yn ymdrechu'n llwyddiannus i sicrhau bod y plant yn teimlo'n rhan o gymuned gynhwysol. Mae'r arweinydd yn adnabod anghenion y plant yn dda a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae'r ymarferwyr yn darparu lefel uchel o ofal, gan sicrhau hawliau'r plentyn. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn arwain drwy esiampl trwy annog plant i ddangos goddefgarwch a pharch tuag at ei gilydd ac adnoddau'r lleoliad. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr yn cyfrannu'n dda at fodlondeb y plant a'u hawydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau a'u hymddygiad cadarnhaol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali yn flynyddol ac yn darllen

storïau amrywiol am wledydd a phobl y byd a'u bywydau. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddigon effeithiol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o'r ardaloedd tu fewn i'r adeilad i greu awyrgylch dysgu pwrpasol ac ysgogol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r holl ardaloedd, fel yr ardal greadigol, ar gael i'r plant drwy'r amser. Mae hyn yn cyfyngu ar eu datblygiad creadigol a'r gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â ble a sut maent yn dysgu yn ystod sesiynau rhydd. Mae defnydd yr ymarferwyr o'r ardal tu allan yn foddhaol. Fodd bynnag, datblygiad diweddar yw hwn ac nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau'r plant yn yr ardal hon eto.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o ansawdd da i gefnogi dysgu'r plant ar draws yr holl feysydd dysgu mewn gweithgareddau parhaus a thasgau ffocws. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o adnoddau ailddefnydd, er enghraifft trwy ddefnyddio bocsys cardfwrdd, hen lenni a chynfasau gwely i greu cornel chwarae rôl ysgogol. Mae hyn yn galluogi plant i ddefnyddio'u dychymyg wrth chwarae rôl yn yr Arctig.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth addas ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddarparu awyrgylch gofalgar a chartrefol i'r plant. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn briodol gyda'r staff, rhieni a'r pwyllgor rheoli. Mae'r arweinydd a'r staff yn cwrdd yn rheolaidd i drafod agweddau penodol ar waith y lleoliad ynghyd ag anghenion plant unigol, yn ôl yr angen. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i sicrhau darpariaeth addas ar gyfer diwallu anghenion y plant. Drwy'r cyfarfodydd hyn, maent hefyd yn cyfrannu'u syniadau tuag at ddatblygu themâu a gweithgareddau yn addas. Fodd bynnag, mae'r arweinydd yn ysgwyddo nifer fawr o'r cyfrifoldebau ac nid yw'r holl ymarferwyr yn cyfrannu'n ddigon effeithiol tuag at weithdrefnau dyddiol y lleoliad, gan gynnwys prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno trefniadau boddhaol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae cadeiryddes y pwyllgor rheoli yn chwarae rhan annatod yn y broses ar gyfer rheoli perfformiad yr arweinydd. Mae'r broses wedi adnabod cyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygu staff yn broffesiynol. Gyda chymorth gwerthfawr yr athrawes ymgynghorol, mae staff wedi derbyn hyfforddiant defnyddiol sydd wedi cryfhau eu dealltwriaeth o egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn gweithredu yn sgil yr hyfforddiant i gael digon o effaith ar wella'r addysg, y ddarpariaeth a safonau plant.

Mae'r lleoliad yn ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn addas, er enghraifft wrth ddarparu digon o gyfleoedd i blant ddysgu am fwyta'n iach. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod datblygiad yr iaith Gymraeg yn cymryd blaenoriaeth yn y cynllun datblygu ac yn cynllunio gweithgareddau priodol i ddatblygu medrau llafaredd plant ar draws yr ardaloedd dysgu. O ganlyniad, mae medrau llafar llawer o'r plant yn datblygu'n gadarn. Er bod arweinwyr yn darparu amryw o ardaloedd dysgu i gyd-fynd ag egwyddorion y cyfnod sylfaen, nid ydynt yn sicrhau bod y cynllunio bob tro'n

galluogi plant i gael mynediad di-dor i'r rhain. Yn ogystal, nid yw'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd effeithiol i gymhwyso'u medrau wrth weithio'n annibynnol.

Mae'r pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig yn gefnogol i'r lleoliad. Yn ddiweddar, ers newidiadau i'r pwyllgor, mae gwell strwythur a chyfeiriad strategol i waith y pwyllgor. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn dechrau galluogi'r aelodau i adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant yn addas.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae dealltwriaeth yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd ar gyfer gwella yn datblygu'n briodol. Mae'r defnydd o asesiadau'r plant a thrafodaethau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff yn rhoi darlun addas i arweinwyr o flaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn ystyried barn rhieni yn effeithiol fel rhan o'r broses drwy holiaduron rheolaidd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu â hwy. Mae arfer yr arweinydd o annog y plant i gyfrannu eu syniadau tuag at y cynlluniau yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys yn briodol wrth lywio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn chwarae rhan digon effeithiol yn y gweithdrefnau hunanarfarnu, ac felly nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o flaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella. Nid yw arweinwyr ychwaith yn gwneud defnydd o arsylwadau uniongyrchol er mwyn gwerthuso effaith y ddarpariaeth na'r addysgu ar safonau a medrau plant ar draws yr ardaloedd dysgu. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr wedi adnabod nac wedi mynd i afael ag agweddau pwysig sydd angen gwelliant, fel cysondeb yn yr addysgu a chyfleoedd i blant gymhwyso eu medrau'n gyson ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae cyswllt amlwg rhwng blaenoriaethau yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella. Yn gyffredinol, mae'r arweinwyr yn adnabod mwyafrif o'r blaenoriaethau cywir ar gyfer gwelliant. Mae gan y cynllun nifer synhwyrol o dargedau ynghyd â chamau gweithredu defnyddiol ar gyfer bodloni'r blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys dangosyddion llwyddiant digon mesuradwy er mwyn gwerthuso effaith y camau gweithredu ar gyrhaeddiad y plant. Nid yw ychwaith yn ystyried costau i alluogi arweinwyr i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant. Wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant sy'n bodoli yn y lleoliad, mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth a medrau plant. Er enghraifft, mae'r gwaith ar ddatblygu rhifedd plant wedi cryfhau dealltwriaeth yr ymarferwyr o sut i gyflwyno gweithgareddau rhifedd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r plant i adnabod rhifau at o leiaf pump yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd araf wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf ynglŷn â defnyddio'r ardaloedd allanol i ddatblygu medrau'r plant ac i ddatblygu gweithdrefnau hunanarfanu. Er hyn, mae arweinwyr wedi dechrau ymateb i'r rhain yn briodol yn ddiweddar, wrth ddechrau datblygu'r ardal allanol, er enghraifft.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad ystod briodol o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ychydig o elfennau o'r ddarpariaeth a safonau.

Mae perthynas gref yn bodoli rhwng y lleoliad a rhieni ac mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn yno. Mae trefniadau cadarn ar waith i gyfathrebu â rhieni yn anffurfiol ac i'w hysbysu o waith y lleoliad trwy gylchlythyron rheolaidd a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Darperir gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant drwy adroddiadau ysgrifenedig manwl a thrwy drefnu ymweliadau yn ôl yr angen.

Mae gan y lleoliad gysylltiad addas â'r ysgol. Maent yn sicrhau cyfleoedd priodol i blant ymweld â dosbarthiadau yn yr ysgol er mwyn i'r plant ddod i adnabod yr ysgol cyn trosglwyddo yno. Mae ganddynt drefniadau addas ar waith i gymryd rhan mewn ychydig o weithgareddau'r ysgol fel mabolgampau yn yr haf. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n esmwyth o'r lleoliad i'r ysgol.

Gwneir defnydd achlysurol o'r gymuned er mwyn cyfoethogi profiadau plant, er enghraifft wrth sicrhau cyfle i'r plant gymryd rhan yn Sioe Bancosffelen yn flynyddol ac wrth fynd ar daith o amgylch y pentref.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae Mudiad Meithrin yn sicrhau bod gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer eu gwaith dyddiol. Mae'r athrawes ymgynghorol yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol ac yn ceisio herio'r ymarferwyr i wneud gwelliannau i'r arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth er mwyn gwella safonau'r plant. Mae'n gwneud hyn trwy ymweliadau rheolaidd a thrwy sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i'r ymarferwyr.

### Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan y lleoliad nifer priodol o staff cymwysedig i ddarparu cwricwlwm cyfnod sylfaen addas i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn dechrau datblygu'u dealltwriaeth o egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn drwy hyfforddiant priodol, er enghraifft ar sut i ddatblygu darpariaeth barhaus a darpariaeth wedi'i chyfoethogi. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth yr holl ymarferwyr o sut i wireddu'r egwyddorion hyn yn ddigon cadarn.

Mae gan y lleoliad ystod dda o adnoddau er mwyn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant. Yn ddiweddar iawn, mae arweinwyr yn ychwanegu adnoddau pwrpasol yn yr ardal allanol, er enghraifft wrth baratoi cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddatblygu'u medrau corfforol drwy yrru beiciau. Fodd bynnag, er bod y lleoliad yn dechrau gwneud mwy o ddefnydd pwrpasol o'r ardal allanol, nid yw ymarferwyr bob tro'n cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau plant yn yr ardal hon.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid yn addas i sicrhau adnoddau o ansawdd da i'r lleoliad. Mae arweinwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu at gyllid y lleoliad drwy wneud cais am grantiau allanol. Mae hyn wedi eu galluogi i ychwanegu adnoddau pwrpasol at yr ardal allanol. Gwna ddefnydd effeithiol o grant datblygu'r blynyddoedd cynnar er mwyn cyflwyno gweithgareddau rhifedd newydd i'r plant. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd y plant.

O ystyried safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |